

CYMRYD EICH CAMAU EICH HUN

Mewn rhai amgylchiadau, mae'n bosib na fydd yr Awdurdod Lleol, er yn cydymdeimlo ag effaith yr aflonyddwch arnoch, yn gallu cymryd camau pellach oherwydd diffyg tystiolaeth (neu efallai gan fod yr aflonyddwch yn achlysurol ac yn anodd ei ragweld), neu oherwydd eu bod yn barnu nad oes unrhyw niwsans sŵn statudol yn digwydd.

Mae gennych hawl hefyd i benderfynu peidio cynnwys yr Awdurdod Lleol yn eich cwyn. Mewn sefyllfa felly gellir cymryd camau annibynnol trwy gwyno'n uniongyrchol i'r Llys Ynadon o dan adran 82 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae hon yn broses ddigon syml ac nid oes rhaid iddi gostio llawer; er nad oes rhaid cyflogi cyfreithiwr, mae'n well ceisio cael peth cyngor cyfreithiol.

Paratowyd y daflen hon gan Is-adran Diogelu'r Cyhoedd y Cyngor i'ch cynorthwyo os ydych yn dymuno cymryd camau preifat yn erbyn person yr ydych yn credu sy'n creu neu'n achosi aflonyddwch sŵn sy'n tarfu ar eich gallu i gael mwynhad rhesymol o'ch eiddo ac sydd yn eich barn chi yn niwsans. Pe baech yn penderfynu mynd â'r mater i'r llys eich hun, nid yw Cyngor Sir Caerfyrddin yn gallu cynnig unrhyw gyngor ar ba gamau ddylech eu cymryd gydag unrhyw achos penodol.

Mae'r daflen hon yn esbonio braslun o broses all eich cynorthwyo os ydych yn dioddef aflonyddwch ac os na fu'n bosib atal y niwsans trwy unrhyw dull derbyniol arall. Dylai camau cyfreithiol rhwng cymdogion fod yn ddewis olaf bob tro.

BETH ALLWCH EI WNEUD OS YW CYMYDOG YN AFLONYDDU ARNOCH?

1. Ewch at y cymydog ac esboniwch yn gwrtais eich bod yn cael eich trwblu gan aflonyddwch sŵn sy'n dod o'u heiddo nhw. Yn aml iawn nid yw pobl yn sylweddoli eu bod yn achosi problem. Bydd y rhan fwyaf yn falch o wneud beth allant i leihau'r aflonyddwch. Os ydych yn credu y gallai eich cymydog ymateb yn flin i gŵyn byddwch yn ofalus wrth godi'r mater, neu danfonwch lythyr anffurfiol atynt. Peidiwch byth â rhoi eich hun mewn sefyllfa lle y gallech fod mewn perygl o gael eich niweidio.
2. Os yw'r broblem yn parhau, cadwch ddyddiadur o'r digwyddiadau sy'n creu aflonyddwch ichi. Cofnodwch fanylion fel dyddiadau, amserau, hyd, achos yr aflonyddwch a sut mae'n effeithio arnoch (e.e. mae'n tarfu ar eich cwsg, mae'n ei gwneud yn anodd ichi ymlacio ac ati). Ni ddylech ond cofnodi gwybodaeth sy'n effeithio arnoch chi. Peidiwch â chynnwys unrhyw wybodaeth bersonol am eich cymdogion na'u bywyd teuluol.

3. Ysgrifennwch at eich cymydog yn esbonio'r broblem. Gofynnwch iddynt leihau'r (rheoli) aflonyddwch sŵn o fewn cyfnod penodol o amser (e.e. pythefnos), a chyfeiriwch at unrhyw sgyrsiau a gawsoch ac at unrhyw beth yr oeddent wedi cytuno i'w wneud. Gofalwch eich bod yn dyddio'r llythyr ac yn cadw copi.
4. Cyn ichi gysylltu â'r Llys Ynadon, mae'n bwysig eich bod wedi casglu digon o wybodaeth i'ch helpu yn eich achos. Cadwch gofnod o unrhyw sgyrsiau a gewch neu unrhyw lythyrau a ysgrifennwch. Os yw eich cymdogion yn denantiaid, trafodwch y broblem gyda'u landlord.
5. Os gwyddoch am unrhyw berson arall sy'n cael eu haflonyddu gan y broblem neu fu'n dyst i'r broblem, gofynnwch iddynt a fyddent yn fodlon rhoi tystiolaeth mewn llys pe baech yn cymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person sy'n gyfrifol am yr aflonyddwch. Os ydynt yn fodlon, gofynnwch iddynt gadw eu cofnod eu hunain o'r broblem a sut mae'n effeithio arnynt. Bydd angen iddynt wneud datganiad ysgrifenedig os yw'r mater yn mynd i'r llys.
6. Erbyn hyn dylech fod mewn sefyllfa i gymryd camau cyfreithiol yn erbyn y person sy'n creu'r aflonyddwch.

CWYNO I LYS YNADON

O dan adran 82 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 gall Llys Ynadon weithredu ar gŵyn a wneir gan unrhyw berson oherwydd y tramgwyddir yn eu herbyn gan fodolaeth niwsans statudol. Mae'n RHAID bod gennych ddigon o dystiolaeth i gefnogi eich cais. Mae camau cyfreithiol o dan adran 82 yn faterion troseddol, ac mae'n rhaid profi eich achos y tu hwnt i amheuaeth resymol.

7. Os penderfynwch weithredu o dan Adran 82 mae'n **rhaid** ichi roi hysbysiad **ysgrifenedig** i'r person sy'n gyfrifol am y broblem. Rhaid i'r hysbysiad ysgrifenedig ddatgan eich bwriad i gymryd camau o'r fath a rhoi manylion iddynt am y gŵyn. Ar gyfer cwynion yn ymwneud â phroblem sŵn mae angen 3 diwrnod o rybudd, ac ar gyfer unrhyw gategori arall o niwsans mae angen 21 diwrnod o rybudd. Dylech gyflwyno eich rhybudd â llaw neu os yw'n cael ei bostio, awgrymir eich bod yn defnyddio dosbarthiad a gofnodwyd. Gofalwch fod eich llythyr wedi'i ddyddio a bod gennych gopi.
8. Os nad oes unrhyw welliant ar ôl ichi ddanfôn y llythyr, dylech gysylltu â Chlerc y Llys a chanddo awdurdod dros yr ardal yr ydych yn byw ynddi. Dywedwch wrth y Clerc eich bod yn dymuno gwneud cynw o dan adran 82 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. Mae'n debyg y bydd Clerc y Llys yn gwneud apwyntiad ichi fynd i'w gweld.
9. Yn y Llys Ynadon byddwch yn siarad ag un o'r Clercod. Mae Clerc yn berson sy'n cynghori'r Ynadon. Byddant yn esbonio'r drefn ichi ac yn

cymryd manylion eich cwyn, fel y gallant benderfynu a ddylent gyflwyno gwŷs. Mae gwŷs yn ddogfen sy'n rhoi gwybod i'r person sy'n creu'r broblem fod rhaid iddynt ddod i'r Llys ar amser a diwrnod penodol i "ateb" y gwŷn. Efallai y codir tâl gweinyddol bychan arnoch.

10. Efallai y bydd y Llys yn gofyn ichi gyflwyno'r wŷs (â llaw neu trwy'r post) i'r person sy'n gyfrifol. Os cyflwynwch y rhybudd eich hun, cadwch gofnod gofalus a gwnewch yn siŵr fod y wŷs yn cael ei chyflwyno mewn da bryd cyn dyddiad y gwrandawriad.
11. Os yw'r Llys yn methu neu'n anfodlon cyflwyno'r wŷs, cewch wybod beth yw'r rhesymau pam.
12. Bydd rhaid ichi fynd i'r Llys i brofi eich achos, ynghyd ag unrhyw dystion yr ydych eisiau galw arnynt i'ch cynorthwyo i brofi eich achos.
13. Os yw'r diffynnydd yn pledio'n euog, y cyfan fydd rhaid ichi'i wneud fydd esbonio'r amgylchiadau i'r Llys a pham y gwnaethoch y gwŷn a pham rydych yn credu fod y broblem yn creu niwsans. Yna bydd y Llys yn penderfynu ar y gosb briodol.
14. Mewn sefyllfaoedd lle y mae'r person sy'n gyfrifol am y broblem, y diffynnydd, yn pledio'n ddiheuog bydd angen ichi brofi eich achos trwy roi tystiolaeth ar lw a galw unrhyw dystion sydd gennych i roi tystiolaeth, ar lw. Os yw'n bresennol, gall y diffynnydd eich holi chi a'ch tystion. Gall y diffynnydd hefyd roi tystiolaeth a galw ar unrhyw dystion allai fod ganddo. Cewch chithau gyfle i'w holi ef a'i dystion.
15. Os yw'r Llys yn penderfynu o'ch plaid chi, gwnaiff orchymyn yn mynnu fod y diffynnydd yn lleihau'r (rheoli) niwsans. Efallai hefyd y bydd y gorchymyn yn gwahardd neu'n cyfyngu unrhyw ail-adrodd ar y niwsans. Bydd y gorchymyn yn nodi'r camau y bydd rhaid eu cymryd er mwyn cyflawni hyn. Dylech gadw cofnod o unrhyw gostau a ysgwyddwyd gennych chi neu eich tystion e.e. gorfod cymryd diwrnod o'r gwaith heb dâl, treuliau teithio ac ati.
16. Os collwch eich achos, byddwch fel arfer yn gorfod talu eich costau eich hun yn dwyn yr achos ac mae'n bosib hefyd y bydd rhaid ichi dalu costau'r parti arall.
17. Pan gyflwynir gorchymyn atal, a phan dorri'r amodau'r gorchymyn hwnnw heb esgus rhesymol, bydd y person hwnnw'n euog o drosedd o dan y Ddeddf a gellir ei ddirwyo. Pan gaiff gorchymyn ei dorri, gofawch eich bod yn cofnodi'r holl fanylion perthnasol, fel y gellir defnyddio'r dystiolaeth honno pe bai angen mynd yn ôl i'r llys. Defnyddir yr un drefn ar gyfer cyflwyno achos arall ag ar gyfer y gwrandawriad gwreiddiol.